# Hysbysiad Preifatrwydd: Aelodau'r Panel Ymgynghorol

Mehefin 2023

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut bydd Comisiynydd Plant Cymru yn trin eich gwybodaeth bersonol, yn unol â rheoliadau diogelu data.

## Casglu eich gwybodaeth bersonol

Dyma'r wybodaeth bersonol byddwn ni'n ei chasglu gennych chi ac ei defnyddio wedyn ('prosesu'):

- Enw llawn
- Cyfeiriad post
- Cyfeiriad e-bost
- Rhifau ffôn cyswllt
- Addysg
- Cymwysterau
- Hanes cyflogaeth
- Aelodaeth broffesiynol
- C.V.
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Datganiadau perthnasol o ran cofnodion troseddol

## Sut rydyn ni'n defnyddio ('prosesu') eich gwybodaeth

Byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau contractiol, gan gynnwys:

- Ystyried eich mynegiant o ddiddordeb mewn dod yn aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd
- Ceisio cyngor, cefnogaeth ac arweiniad gennych chi fel aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd
- Ad-dalu unrhyw gostau cysylltiedig â bod yn aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd i chi
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall berthnasol, gan gynnwys ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

## Rhannu a derbyn eich gwybodaeth

Gellir rhannu unrhyw gyngor neu farn rydych chi'n ei mynegi ar amrywiol adegau gyda thîm staff y Comisiynydd yng nghofnodion cyfarfodydd y panel ymgynghorol.

Byddwn hefyd yn eich enwi fel aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd ar wefan y Comisiynydd. Gallwn hefyd eich enwi fel aelod o'r Panel yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiynydd.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am gael eich adnabod, codwch eich pryderon gyda Phennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad y Comisiynydd, sydd hefyd yn swyddog Diogelu Data'r sefydliad.

## Cadw eich gwybodaeth

Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol, yr holl gofnodion a'r dogfennau cysylltiedig o'r Panel Ymgynghorol, ac unrhyw fanylion talu yn unol â'n Polisi Cadw Dogfennau – y mae copi ohono ar gael ar gais gan Bennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad y Comisiynydd.

## Eich hawliau

Yn amodol ar eithriadau, a'r sail ar gyfer prosesu eich gwybodaeth, gallai'r hawliau canlynol fod ar gael i chi:

- Yr hawl i gael mynediad at eich data personol;
- Yr hawl i gael data personol anghywir wedi'i gywiro;
- Yr hawl i ddileu data personol;
- Yr hawl i gyfyngu ar y prosesu a wneir;
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol; a'r
- Hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau a wneir yn awtomatig.

Os hoffech ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau, neu wybod mwy am yr hawliau sydd ar gael i chi, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Comisiynydd (manylion cyswllt isod).

## Â phwy dylech chi gysylltu os bydd gennych chi gwestiynau neu bryderon

Comisiynydd Plant Cymru yw rheolydd y data.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch prosesu data personol gan Gomisiynydd Plant Cymru, neu os ydych am ymarfer unrhyw hawliau perthnasol, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Comisiynydd:

Rhif ffôn: 01792 765600 // E-bost: post@complantcymru.org.uk

Os ydych chi'n dal yn anfodlon, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Cyfeiriad post: Wyclife House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF

Cyfeiriad ar y we: www.ico.org.uk

Rhif ffôn: 0300 123 1113